

# Gweithgaredd 4 : Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd

## Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn yr Holocaust

Pan ddaeth y Natsiaid i rym yn yr Almaen yn 1933, roedd Iddewon yn byw ym mhob gwlad yn Ewrop. Roedd cyfanswm o tua naw miliwn o Iddewon yn byw yn y gwledydd a fyddai'n cael eu meddiannu gan yr Almaen yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Erbyn diwedd y rhyfel, byddai dau o bob tri o'r Iddewon hyn wedi marw, a bywyd Iddewig Ewropeaidd yn cael ei newid am byth.

Ym 1933 roedd y poblogaethau Iddewig mwyaf wedi'u crynhoi yn nwyrain Ewrop, gan gynnwys Gwlad Pwyl, yr Undeb Sofietaidd, Hwngari, a Rwmania. Roedd llawer o Iddewon dwyrain Ewrop yn byw mewn trefi neu bentrefi Iddewig yn bennaf, a elwid *shtetls*. Roedd Iddewon dwyrain Ewrop yn byw bywyd ar wahân fel lleiafrif o fewn diwylliant y mwyafrif. Roeddent yn siarad eu hiaith eu hunain, Iddew-Almaeneg, sy'n cyfuno elfennau o Almaeneg a Hebraeg. Roedden nhw'n darllen llyfrau Iddew-Almaeneg ac yn mynychu theatrau a ffilmiau Iddew-Almaeneg. Er bod llawer o Iddewon iau mewn trefi mwy yn dechrau mabwysiadu dulliau a gwisg fodern, roedd pobl hyn yn aml yn gwisgo'n draddodiadol, y dynion yn gwisgo hetiau neu gapiau, a'r merched yn gorchuddio eu gwallt â wigiau neu sgarffiau.



*Portread grŵp o blant o flaen cartref preifat yn nhref Eisiskes. Llofruddiwyd Iddewon y shtetl hwn gan yr Einsatzgruppen ar 21 Medi 1941. United States Holocaust Memorial Museum Photo Archives #16712.*

*Trwy garedigrwydd The Shtetl Foundation.  
Hawlfraint United States Holocaust Memorial  
Museum.*

# Gweithgaredd 4 : Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn y Rhyfel: Hunaniaeth, Amrywiaeth a Chyffredinolrwydd

## Bywyd Iddewig yn Ewrop Cyn yr Holocost

Mewn cymhariaeth, roedd Iddewon gorllewin Ewrop—yr Almaen, Ffrainc, yr Eidal, yr Iseldiroedd, a Gwlad Belg—yn cyfrif am lawer llai o'r boblogaeth ac yn tueddu i fabwysiadu diwylliant eu cymdogion nad oeddent yn Iddewon. Roeddent yn gwisgo ac yn siarad fel eu cydwladwyr, a chwaraeai arferion crefyddol traddodiadol a diwylliant Iddew-Almaenig ran llai pwysig yn eu bywydau. Roeddent yn tueddu i fod wedi cael addysg fwy ffurfiol nag Iddewon dwyrain Ewrop ac yn byw mewn trefi neu ddinasoedd.

Gellid dod o hyd i Iddewon ym mhob cefndir, fel ffermwyr, teilwriaid, gwniadwyr, gweithwyr ffatri, cyfrifwyr, meddygon, athrawon, a pherchnogion busnesau bach. Roedd rhai teuluoedd yn gyfoethog; roedd llawer mwy yn dlawd. Daeth llawer o blant â'u haddysg i ben yn gynnar i weithio mewn masnach neu grefft; roedd eraill yn edrych ymlaen at barhau â'u haddysg ar lefel prifysgol. Eto i gyd, beth bynnag oedd eu gwahaniaethau, roeddent yr un peth mewn un ffordd: erbyn y 1930au, gyda thwf y Natsïaid i rym yn yr Almaen, daeth pob un ohonynt yn ddiodefwr posibl, a newidiwyd eu bywydau am byth.

## Ffynonellau

United States Holocaust Memorial Museum, Holocaust Encyclopaedia: *Jewish life in Europe before the Holocaust* < <https://encyclopedia.ushmm.org/content/en/article/jewish-life-in-europe-before-the-holocaust> > [cyrchwyd 15 Chwefror 2022]

United States Holocaust Memorial Museum, *Group portrait of children in front of a private home in the town of Eisiskes*. United States Holocaust Memorial Museum Photo Archives # 16712 (2015) <<https://collections.ushmm.org/search/catalog/pa1059863>> [cyrchwyd 15 Chwefror 2022]

